

Rhaglen Achredu DPP Technocamps ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Athrawon (Cymru)

(Cynllun Peilot: Blwyddyn Academaidd 2020-2021)

Nod y sesiynau hyn yw gwella gwybodaeth athrawon am Gyfrifiadureg a Meddwl Cyfrifiannol, cymhwysu'r sgiliau hyn yn yr ystafell ddosbarth ac yn strategol ar draws yr ysgol. Cysylltir hyn â'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol gan weithio ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad newydd y cwricwlwm newydd.

Trwy gymryd rhan yn y rhaglen hon, bydd athro yn derbyn cydnabyddiaeth Technocamps gan ddod yn **'Athro Technocamps Ardystiedig'**, neu bydd ysgol yn ennill statws **'Ysgol Technocamps Ardystiedig'** ar lefel Efydd, Arian neu Aur.

Dyrennir gwobrau ar sail cwblhau rhaglen Hyfforddi (DPP) Athrawon Technocamps 2020-2021 gan athrawon unigol, ac ar sail nifer yr athrawon sy'n cwblhau'r rhaglen yn yr ysgol.

Dyrennir gwobrau fel a ganlyn:

Gwobr Athro Technocamps Ardystiedig

- Bydd athrawon yn derbyn tystysgrif a theitl 'Athro Technocamps Ardystiedig' ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, neu cyn gynted ag y byddant yn cwblhau'r 15 awr gyfan o DPP Technocamps.
- Mae'r teitl yn para am 2 flynedd academaidd, o'r dyddiad cwblhau, a chwblheir sesiynau diweddarau yn ystod yr ail flwyddyn.

Gwobr Ysgol Technocamps Ardystiedig

- Dyrennir Gwobrau Efydd, Arian neu Aur i ysgolion, a fydd yn para 2 flynedd academaidd o'r dyddiad cwblhau cyn belled â bod yr holl staff hyfforddedig yn mynychu sesiynau diweddarau (4 awr = 2 x sesiwn 2 awr) yn yr ail flwyddyn.
- Mae'r ysgol wedi ymrwmo i ddatblygiad digidol ac wedi ymgorffori hyn yn eu cynllun gwella ysgol.

Dyma ofynion y gwobrau:

Efydd

- 30% o'r staff addysgu (ac eithrio Cynorthwywyr Cymorth Dysgu) yn derbyn isafswm o 15 awr o hyfforddiant mewn blwyddyn academaidd (sy'n cyfateb i uchafswm o 10 x sesiwn 2 awr DPP) a.
- Yr ysgol yn cynnal isafswm o 1 diwrnod o weithdai Technocamps bob tymor (3 y flwyddyn).

Arian

- 50% o'r staff addysgu (ac eithrio Cynorthwywyr Cymorth Dysgu) yn derbyn isafswm o 15 awr o hyfforddiant mewn blwyddyn academaidd (sy'n cyfateb i uchafswm o 10 x sesiwn 2 awr DPP) a.
- Yr ysgol yn cynnal isafswm o 1 diwrnod o weithdai Technocamps bob tymor (3 y flwyddyn).

Aur

- 75% o'r staff addysgu (ac eithrio Cynorthwywyr Cymorth Dysgu) yn derbyn isafswm o 15 awr o hyfforddiant mewn blwyddyn academaidd (sy'n cyfateb i uchafswm o 10 x sesiwn 2 awr DPP) a.
- Yr ysgol yn cynnal isafswm o 1 diwrnod o weithdai Technocamps bob hanner tymor (uchafswm o 6 y flwyddyn).

Rhaglen Achredu DPP Technocamps ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Athrawon (Cymru)

(Cynllun Peilot: Blwyddyn Academaidd 2020-2021)

Strwythur a Darpariaeth y rhaglen Hyfforddi Athrawon Technocamps (DPP)

Nod y sesiynau hyn yw gwella gwybodaeth athrawon am Gyfrifiadureg a Meddwl Cyfrifiannol (MC), gwella eu sgiliau wrth ddefnyddio Scratch ar gyfer addysgu rhaglennu a sgiliau MC, a'u galluogi i gymhwyso'r sgiliau hyn yn yr ystafell ddosbarth. Bydd y sesiynau hefyd yn edrych ar y Fframwaith Cymhwysedd Digidol a sut i gymhwyso MC ar draws y cwricwlwm i baratoi ar gyfer y Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg newydd/ y cwricwlwm newydd.

Darperir yr holl hyfforddiant DPP yn rhithiol trwy Zoom gan Swyddogion Darpariaeth Technocamps o Ganolfannau Prifysgol De Cymru, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Abertawe.

Byddant yn cael eu cynnal ar brynhawn Mercher rhwng 2pm a 4pm yn unol â'r amserlen.

Dim ond lle i 20 o gyfranogwyr fydd ym mhob sesiwn, er mwyn sicrhau ansawdd y cymorth a'r rhyngweithio o fewn y grŵp a gyda staff Technocamps.

Bydd pob sesiwn yn cael ei labelu i ddangos pa rai y mae'n rhaid eu cymryd gyda'i gilydd:

- Rhaid cymryd sesiwn 1 a 2 cyn unrhyw sesiynau eraill.
- Caiff sesiynau eraill eu paru (1/2 a 2/2) a rhaid eu cymryd gyda'i gilydd lle y bo'n bosibl.
- Rhaid cymryd sesiwn 5 cyn unrhyw sesiynau Scratch eraill.

Bydd presenoldeb athrawon yn cael ei fonitro gan Technocamps - cesglir data gan ddefnyddio ffurflen Google Form.

Data sy'n ofynnol gan Ysgolion ac Athrawon

Bydd angen y data canlynol ar Technocamps ar gyfer pob athro ac ysgol sy'n cofrestru ar y rhaglen:

- Enw a Chyfeiriad yr Ysgol
- Enw'r Pennaeth
- Manylion cyswllt e-bost y Pennaeth*
- Nifer yr Athrawon a gyflogir gan yr ysgol**
- Cyfeiriad e-bost cyswllt (ar gyfer pob athro sy'n cymryd rhan)

*Gyda chaniatâd y Pennaeth os yw ar gyfer Gwobr Athro yn unig

**Ar gyfer Gwobr Ysgol yn unig

Rhaglen Achredu DPP Technocamps ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Athrawon (Cymru)

(Cynllun Peilot: Blwyddyn Academaidd 2020-2021)


Sesiynau Craidd y Rhaglen

D.S. Rhaid gwneud sesiwn 1 a 2 cyn unrhyw sesiwn arall. Rhaid cwblhau sesiwn 5 cyn unrhyw sesiwn Scratch arall.

Rhaid cwblhau pob sesiwn arall mewn paru fel y nodir, (1/2 a 2/2) ond gellir eu gwneud mewn unrhyw drefn.

Argymhellir cwblhau'r sesiynau yn y drefn isod.

1. Cyflwyniad i Feddwl Cyfrifiannol (1/2)
2. Meddwl Cyfrifiannol ar draws y Cwricwlwm (2/2)
3. Algorithmau a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol - Trosolwg (1/2)
4. Algorithmau a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol - Cymhwyso ar draws y Cwricwlwm - (2/2)
5. Cyflwyniad i Raglennu Scratch (1/2)
6. Rhaglennu Scratch pellach (2/2)
7. Scratch fel Offeryn Addysgu (1/2)
8. Scratch fel Offeryn Addysgu (2/2)
9. Meddwl Cyfrifiannol Cymhwysol - Cynllunio ar gyfer Addysgu (1/2)
10. Addysgu Meddwl Cyfrifiannol ar draws y Cwricwlwm (2/2)



Sesiynau Ychwanegol

Mae'r rhaglen yn cynnwys sesiynau ychwanegol, sy'n edrych ar amryw galedwedd/meddalwedd penodol y gallai ysgolion fod wedi buddsoddi ynddynt, neu eu bod am fuddsoddi ynddynt - gweler y rhestr isod.

Mae'r sesiynau hyn yn ychwanegol at y rhaglen graidd.

- Crumble
- BBC micro:bits
- Arduino
- Spheros
- Lego WeDo
- Python (MAT)

Rhaglen Achredu DPP Technocamps ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Athrawon (Cymru)

(Cynllun Peilot: Blwyddyn Academaidd 2020-2021)

Presenoldeb

Bydd athrawon yn cofrestru ar gyfer sesiynau trwy **Eventbrite**.

Gellir archebu sesiynau mewn un tymor, neu ar draws y flwyddyn academaidd gyfan.

Gofynion:

- Rhaid i athro unigol fynychu pob un o'r 10 sesiwn er mwyn ennill Gwobr Athro Technocamps Ardystiedig.

- Gellir mynychu sesiynau mewn unrhyw drefn, cyn belled â bod y sesiynau sy'n rhaid eu cwblhau yn gyntaf yn cael eu bodloni (gweler y nodiadau uchod yn yr adran Sesiynau Craidd y Rhaglen).
- Rhaid archebu sesiynau 'cynyddol' sydd wedi'u paru mewn trefn, yn ddelfrydol yn yr un tymor.
- Yn ogystal, bydd fideos/gweithgareddau ychwanegol y gall athrawon eu cwblhau y tu allan i oriau byw'r rhaglen er mwyn gwella eu gwybodaeth a'u sgiliau.

Amserlen

Amserlen Blwyddyn Academaidd 2020-2021 Dydd Mercher 2-4pm
(mae gwyliau hanner tymor wedi eu hystyried)


Dyddiadau Tymor 1 Hydref	Dyddiadau Tymor 2 Gwanwyn	Dyddiadau Tymor 3 Haf	Teitl y Sesiwn
30 Medi	13 Ionawr	21 Ebrill	1. Cyflwyniad i Feddwl Cyfrifiannol (1/2)
7 Hydref	20 Ionawr	28 Ebrill	2. Meddwl Cyfrifiannol ar draws y Cwricwlwm (2/2)
14 Hydref	27 Ionawr	5 Mai	3. Algorithmau a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol – Trosolwg (1/2)
21 Hydref	3 Chwefror	12 Mai	4. Algorithmau a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol – Cymhwyso ar draws y Cwricwlwm - (2/2)
4 Tachwedd	10 Chwefror	19 Mai	5. Cyflwyniad i Raglennu Scratch (1/2)
11 Tachwedd	24 Chwefror	26 Mai	6. Rhaglennu Scratch Pellach (2/2)
18 Tachwedd	3 Mawrth	9 Mehefin	7. Scratch fel Offeryn Addysgu (1/2)
25 Tachwedd	10 Mawrth	16 Mehefin	8. Scratch fel Offeryn Addysgu (2/2)
2 Rhagfyr	17 Mawrth	23 Mehefin	9. Meddwl Cyfrifiannol Cymhwysol - Cynllunio ar gyfer Addysgu (1/2)
9 Rhagfyr	24 Mawrth	30 Mehefin	10. Addysgu Meddwl Cyfrifiannol ar draws y Cwricwlwm (2/2)

Rhaglen Achredu DPP Technocamps ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Athrawon (Cymru)

(Cynllun Peilot: Blwyddyn Academaidd 2020-2021)

Certification flow chart

D.S. Bydd modd i athrawon a fynychodd sesiynau yn ystod y Cyfnod Clo (Mai-Gorffennaf 2020) hawlio eu horiau, a'u defnyddio ar gyfer gwobr Athro.



Am ragor o wybodaeth am y rhaglen hon, cysylltwch â info@technocamps.com